Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys

Adolygiadau o gwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Adroddiad Diweddaru'r Cyfnod Adrodd

Ionawr – Mawrth 2026

Chwarter 4

Cynnwys

Adolygu data 2

Rheswm dros adolygiadau a gadarnhawyd 2

Goruchwyliaeth 4

Adolygu data

Dyddiad	Nifer yr adolygiadau a ddaeth i law	Nifer yr adolygiadau a gadarnhawyd	Nifer yr adolygiadau na gadarnhawyd	Nifer cyfartalog o ddyddiau i SCHTh eu cwblhau	Nifer cyfartalog o ddyddiau i'w cwblhau gan Sancus	Nifer yr adolygiadau a anfonwyd at Sancus
Chwarter 4 2025/26	17	5	12	17	9	2
Chwarter 4 2024/25	13	2	11	19	6	10

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweld cynnydd o 31% yn nifer yr adolygiadau cwynion a ddaeth i law o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Er hyn mae nifer y dyddiau cyfartalog ar gyfer cwblhau adolygiad wedi lleihau (11% yn gyflymach) o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae nifer y cwynion a gadarnhawyd wedi cynyddu 14%. Roedd yr adolygiadau a gadarnhawyd oherwydd diffyg cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, diffyg gwybodaeth yn y llythyr canlyniad, amseroldeb yr ymchwiliad a gynhaliwyd, anghytundeb â'r penderfyniad a wnaed a phenderfyniad nad oedd y dysgu a nodwyd gan y sawl a ymdriniodd â'r gŵyn yn ddigonol.

Gellir dod o hyd i ddata Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar eu gwefan yma: Llyfrgell Cyhoeddiadau | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Rheswm dros adolygiadau a gadarnhawyd

1. ***Cyfeirnod y gŵyn: PCC-08012026-6/CO/209/25***

Cadarnhawyd yr adolygiad ar y sail y dylai swyddog yr achos fod wedi cysylltu â'r Swyddog Deddfwriaeth Cŵn yn y lle cyntaf cyn cysylltu â'r perchennog. Penderfynodd y sawl a oedd yn trin y gŵyn y dylai swyddog yr achos fod wedi ceisio cyngor priodol a allai fod wedi arwain at atafaelu'r ci yn gyflymach ar sail pryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd, ac o bosibl, brîd anghyfreithlon.

O ganlyniad, gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Bod swyddog yr achos yn cael adborth mewn perthynas â chysylltu â Swyddog Deddfwriaeth Cŵn yn y lle cyntaf wrth ymdrin ag unrhyw honiadau sy'n ymwneud â chi peryglus neu frîd anghyfreithlon.
- Atgoffa swyddog yr achos o'i rwymedigaeth i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, yn benodol hawliau 4 a 6.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Derbyniodd yr Awdurdod Priodol yr argymhellion ac ailasesodd y penderfyniad ynghylch y gwasanaeth a'i gofnodi bellach fel un annerbyniol.

Cydnabu'r Adran Safonau Proffesiynol yr effaith andwyol a gafodd y digwyddiad hwn ar yr achwynydd a'i ferch ac ymddiheurodd am ganlyniad yr adolygiad a'r gwasanaeth a ddarparwyd.

2. Cyfeirnod y gŵyn: PCC-09022026-7/ CO/492/25

Anghytunodd yr adolygydd â phenderfyniad y sawl a oedd yn trin y gŵyn fod amseroldeb yr ymchwiliad yn dderbyniol. O ganlyniad, cadarnhawyd yr adolygiad a gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Ailystyried y canlyniad a ddarparwyd gan y sawl a ymdriniodd â'r gŵyn mewn perthynas â'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag amseroldeb yr ymchwiliad.
- Darparu gwersi a ddysgwyd ychwanegol i swyddog yr achos fyfyrio ar bwysigrwydd rheoli amser a chynnal ymchwiliadau mewn modd amserol.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Derbyniodd yr Awdurdod Priodol y ddau argymhelliad.

3. Cyfeirnod y gŵyn: PCC-06032026-2 / CO/00288/25

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y gwasanaeth a ddarparwyd gan y swyddog wedi gostwng islaw'r safonau disgwyliedig, nid yn unig yn yr alwad ffôn i'r achwynydd, ond hefyd ar safle'r achwynydd. Ym marn yr adolygydd nid oedd yr agwedd hon ar y gŵyn wedi cael sylw drwy'r gwersi a ddysgwyd a nodwyd, ac ystyriodd fod gwasanaeth y swyddog a'i swyddog cysylltiedig wedi gostwng islaw'r safonau disgwyliedig, yn benodol o ran trin aelodau'r cyhoedd â thegwch a pharch.

Penderfynodd yr adolygiad nad yw'r gwersi a ddysgwyd a nodwyd yn mynd i'r afael â'r uchod, ac felly cadarnhawyd yr adolygiad. O ganlyniad, gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Bod y swyddog, a'r swyddog cysylltiedig, yn cael cyfle i adolygu a myfyrio ar eu rhyngweithio â'r achwynydd.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Priodol wedi ymateb i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r cais uchod ac wedi derbyn yr argymhelliad.

4. PCC-02032026-7 / CO/00608/24

Er y penderfynwyd yr ymdriniwyd â'r gŵyn mewn modd priodol a chymesur, roedd yr adolygydd yn anghytuno â'r canlyniad a gyrhaeddwyd ac o'r farn bod y gwasanaeth a ddarparwyd yn annerbyniol.

Ni wnaed unrhyw argymhellion pellach oherwydd penderfynwyd bod gwersi priodol eisoes wedi'u nodi fel rhan o'r broses o ymdrin â'r gŵyn.

5. PCC-13032026-4 / CO/00494/25

Penderfynodd yr adolygydd nad oedd y llythyr canlyniad a ddarparwyd i'r achwynydd yn darparu digon o wybodaeth i'r achwynydd ddeall y canlyniad a gyrhaeddwyd.

O ganlyniad, gwnaed yr argymhelliad canlynol:

- Dylid darparu dealltwriaeth glir i'r achwynydd o'r penderfyniadau a wnaed o ran y canlynol:

1. Cwestiwn 1, deall pam na chafodd RIPA S.49 ei ddilyn fel cyhuddiad annibynnol.

2. Cwestiwn 3, pam na chynhaliwyd gwiriad ariannol.

- Dylid darparu dealltwriaeth glir i'r achwynydd o'r drosedd a gofnodwyd, yn benodol drwy ddangos paramedrau'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Heddlu Dyfed-Powys gydymffurfio â nhw er mwyn ceisio cyhuddiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Derbyniodd yr Awdurdod Priodol yr argymhellion uchod a phenododd uwch-swyddog i adolygu'r ymchwiliad. Mae'r swyddog hwnnw wedi gofyn am benodi swyddog yr achos newydd i geisio ail farn ynghylch adran 49 RIPA gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol hefyd wedi nodi y bydd y gŵyn yn parhau ar agor, a bod swyddog ymchwilio dynodedig wedi'i neilltuo i'r gŵyn, er mwyn sicrhau bod yr achwynydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn canlyniad yr arweiniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron

Goruchwyliaeth

Yn ystod y broses adolygu, bydd y cyrff plismona lleol yn canfod anghysondebau nad ydynt yn newid y canlyniad, gan ei fod yn rhesymol ac yn gymesur, ond lle gellir gwella'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn. Mae'r broses adolygu yn rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anghysondebau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol IOPC-Focus-19-Reviews (18).pdf

Roedd chwe adolygiad yn ystod y cyfnod hwn lle'r ystyriwyd y gellid bod wedi gwella'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn.

Themâu a nodwyd fel ffactorau y dylid bod wedi ymdrin â hwy yn well:

- Amseroldeb wrth gwblhau cwynion.
- Diweddariadau statudol na ddarparwyd o fewn 28 diwrnod.
- Cywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad.
- Y defnydd o jargon yr heddlu ac iaith ddeddfwriaethol dechnegol, heb egluro eu hystyr.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn cofnodi unrhyw arferion gorau a nodwyd o gynnal adolygiad.

Darperir yr adroddiad hwn i Fwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol i adrodd amdano. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol ar ein gwefan yma: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys